


Ymwrthedd Gwrthfi crobaidd mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd Arolwg Blynyddol 2021/22



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cefnogodd y **Grŵp Cyflawni** lansiad **Arwain DGC (Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol)**. Nod y rhaglen yw darparu amryw o brosiectau cyffrous i fynd i'r afael ag AMR, gyda nifer ohonynt yn cael eu treialu yng Nghymru am y tro cyntaf.

Cafodd Cynllun Gweithredu Fframwaith Lles Anifeiliaid Cymru ei lansio ym mis Ionawr 2022. Fe wnaeth y Grŵp Cyflawni sicrhau bod AMR yn parhau i fod yn un o'r prif flaenoriaethau o fewn y Cynllun.



Ym mis Medi 2021 cynhaliodd **Prif Swyddog Milfeddygol Cymru** a **Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru** sesiwn holi ac ateb gyda **Hyrwyddwyr Rhagnodi Milfeddygol Arwain DGC (VPCau)**, a hwylusir gan aelod o'r Grŵp Cyflawni. Roedd hyn yn gyfle i'r VPCau gwestiynu a chodi materion yn uniongyrchol gyda llunwyr polisi, gan helpu i lywio dulliau gweithredu yng Nghymru yn y dyfodol.



Yn ystod cyfarfod fis Rhagfyr 2021 bu'r Grŵp Cyflawni yn ymwneud â'r **Defnydd Cyfrifol o Gynghrair Meddyginiaethau — Anifeiliaid Anwed a Cheffylau (RUMA CA&E)**, i ddysgu mwy am eu cynlluniau a'u gweithgareddau. Mae'r Grwpiau hefyd yn darparu cefnogaeth i'w gilydd.



Bu'r Grŵp Cyflenwi yn cymryd rhan yn **Wythnos Ymwybyddiaeth Gwrthficrobaidd y Byd 2021**, drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.



Roedd yr ymgyrch yn hyrwyddo **Cynllun Gweithredu AMR Anifeiliaid ac Amgylchedd Cymru** yn ogystal â Arwain DGC.



Yn 2022, comisiynodd y Grŵp Cyflawni **arolwg pwysig, unigryw o ganolfannau milfeddygol sy'n trin anifeiliaid anwes a cheffylau**. Mae canlyniadau'r arolwg yn cynyddu ein dealltwriaeth o **arferion rhagnodi gwrthficrobaidd cyfredol ac ymwybyddiaeth o AMR yn y sector yng Nghymru**. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn llunio ein cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer gwaith yn y maes hwn.



Arwain DGC
Defnydd Gwrthficrobaidd Cyfrifol
Responsible Antimicrobial Use

RESPONSIBLE USE OF MEDICINES ALLIANCE
RUMA
COMPANION ANIMAL & EQUINE